Adroddiad ar

Ysgol Santes Helen

Twtil
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PF

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ysgol Santes Helen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Santes Helen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 40 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 32 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 21.7%) | 27.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 9.2%) | 31.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 43.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2004 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 08/10/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/01/2026 |

Daw’r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i’r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Santes Helen yn ysgol gynhwysol a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith dyddiol. Mae ethos yr ysgol, dan arwyddair 'Car dy gymydog', yn meithrin amgylchedd parchus a chefnogol, ac mae staff yn darparu gofal cryf i ddisgyblion a'u teuluoedd. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau dros amser. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn adnabod nac yn mynd i'r afael â'r diffygion yn safon yr addysgu mewn llawer o wersi.

Mae athrawon yn ddarparu ychydig o weithgareddau priodol sy'n cysylltu â themâu tymhorol ac yn cael ei chyfoethogi gan ymweliadau lleol. Mae medrau darllen a mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn ddigon cydlynus na chynhwysfawr i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd llawn yn eu medrau ysgrifennu, rhifedd a digidol dros amser. Yn ogystal, nid yw llawer o'r gweithgareddau dysgu yn ennyn diddordeb y disgyblion yn ddigon llwyddiannus.

Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy fodelu iaith yn addas. Er hyn, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd cadarn o'r iaith wrth weithio a chymdeithasu â'i gilydd. Yn ddiweddar, mae staff wedi canolbwyntio ar feithrin annibyniaeth disgyblion, ond nid yw lefel yr her na chyflymder llawer o'r gwersi yn ymateb i anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai uwch eu gallu.

Mae'r pennaeth yn arwain gyda ymrwymiad cryf, ac mae llywodraethwyr yn gefnogol. Er hyn, nid yw arweinwyr yn cynllunio'n ddigon strategol i arwain y gwelliannau angenrheidiol. Nid yw deilliannau'r prosesau hunanwerthuso yn ddigon dibynadwy i adnabod yr agweddau mwyaf pwysig i'w gwella, gan gynnwys ansawdd yr addysgu, medrau disgyblion, a datblygiad cwricwlwm ysgogol a chynhwysfawr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud  argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Ymateb i’r pryder diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella effeithiolrwydd arweinwyr yn enwedig wrth hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

A3 Sicrhau’r gwelliannau angenrheidiol yn y cwricwlwm a’r addysgu

A4 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion datblygu a chymhwyso’r ystod lawn o fedrau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis fel arfer.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Santes Helen yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r arwyddair, 'Car dy gymydog', yn treiddio drwy holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio clos a chynhaliol â'r disgyblion, ac mae'r ymdeimlad cryf o barch rhwng staff a disgyblion yn nodwedd amlwg o'r ddarpariaeth. Rhoddir pwyslais cadarn ar ddatblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion drwy gyfleoedd bwriadus i fyfyrio ar werthoedd fel empathi a charedigrwydd. Mae staff yn darparu gofal a chymorth buddiol i ddisgyblion a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae diffygion mewn llawer o wersi ac nid yw llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau dros amser. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael a materion pwysig sydd angen gwella.

Mae athrawon yn cynllunio ychydig o weithgareddau dysgu priodol sy'n cysylltu'n bwrpasol â'r themâu tymhorol. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fynd ar ymweliadau lleol sy'n eu cefnogi wrth dwysau eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddysgu. Er hyn, nid yw athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn ddigon cydlynus na chynhwysfawr i ddatblygu holl fedrau'r disgyblion ac ennyn a chynnal eu diddordeb yn effeithiol.

Mae'r staff yn fodelau iaith briodol ac yn annog disgyblion i ddefnyddio eu medrau Cymraeg wrth weithio o fewn eu hardaloedd dysgu ac wrth gyd-chwarae. Er hyn, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd digon cadarn o'r iaith. Mae medrau darllen Cymraeg a Saesneg mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion hynaf yn frwdfrydig wrth drafod y testunau o fewn eu llyfrau ac yn darllen ar goedd yn hyderus. Ar draws yr ysgol, mae medrau mathemateg mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n addas. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu ystod o fedrau o'u mannau cychwyn, gan gynnwys eu medrau ysgrifennu a digidol. Yn ogystal, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cynhwyso eu medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yn ddiweddar, mae staff wedi bod yn cydweithio'n bwrpasol i wella medrau annibynnol y disgyblion, gan gynnwys cynnig cyfleoedd priodol iddynt weithio ar ben eu hunain ac mewn grwpiau bychain. Mae lleiafrif y disgyblion yn hyderus wrth gwblhau eu gweithgareddau dysgu ac yn gwybod y camau i'w cymryd os ydynt yn wynebu anawsterau. Mae'r athrawon yn cefnogi'r disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cwblhau eu gwaith yn briodol. Mewn ychydig o sesiynau, maent yn cynnig adborth buddiol i'r disgyblion, sy'n eu galluogi i wybod y camau nesaf yn eu dysgu. Er hyn, nid yw disgwyliadau athrawon o gyrhaeddiad disgyblion o fewn llawer o wersi yn ddigon uchel.

Mae arweinwyr yn adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynnar ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r rheini ac asiantaethau eraill i ymateb i'w

anghenion yn briodol. Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o gymorthyddion i ddarparu cefnogaeth addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, a mae staff yn darparu ystod o ymyraethau pwrpasol sy’n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn erbyn eu targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw’r lefel her o fewn llawer o’r gweithgareddau dysgu yn ymateb i anghenion bob disgybl, yn enwedig y rhai sydd ag ADY a’r rhai uwch eu gallu. Yn ogystal, nid yw cyflymder y gwersi yn cefnogi disgyblion i ymgolli a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae disgyblion, gan gynnwys aelodau’r cyngor ysgol, yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i gyfrannu at rai agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft drwy gymryd rhan yn nhrefniadau parti’r haf. Er hyn, prin yw’r cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar ddarpariaeth ehangach yr ysgol.

Mae’r pennaeth yn arweinydd ymroddgar sy’n dangos ymrwymiad cryf i’r ysgol a’i chymuned, ac mae amgylchedd cefnogol a gofalgar yn treiddio drwy fywyd yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn ymgysylltu’n rheolaidd â gwaith yr ysgol drwy ymweliadau a thrafodaethau. Maent yn monitro agweddau pwysig fel presenoldeb disgyblion, diogelu a’r gyllideb yn briodol. Fodd bynnag, nid oes gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth ddigon cadarn o’r meysydd pwysicaf i’w gwella o ran ansawdd yr addysgu a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae’r pennaeth yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso priodol, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Er hyn, nid yw canfyddiadau arweinwyr sy’n deillio o’r gweithgareddau hyn yn ddigon ddibynadwy, nac yn talu digon o sylw i agweddau pwysig o’r addysgu a dysgu. Oherwydd hyn, nid yw arweinwyr yn adnabod yr agweddau mwyaf pwysig o’r ddarpariaeth a safonau sydd angen sylw. Yn ogystal, nid yw arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm pwrpasol ac ysgogol i ddiwallu anghenion disgyblion a datblygu eu medrau’n llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff, ond nid yw targedau unigol staff yn deillio’n ddigon clir o werthusiad systematig o ansawdd yr addysgu a dysgu nac anghenion datblygiadol penodol athrawon. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn adnabod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn ddigon strategol i fynd i’r afael â gwendidau allweddol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Er bod arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, nid ydynt yn monitro gwariant y grant datblygu disgyblion yn ddigon drylwyr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2026